

POLISI DIOGELU DATA

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Awdur	Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth
Fersiwn	1.1
Statws	Final
Dyddiad cymeradwyo	26.06.25
Cymeradwywyd gan	Pwyllgor Awdit a Risg
Dyddiad dod i rym	26.06.25
Dyddiad yr adolygiad nesaf	26.06.27
Cyfrifoldeb dros adolygu	Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth
Gwnaethpwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg	Do
Ystyriwyd yr Effaith ar Iechyd a Lles	Do

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad	Addaswyd/Adolygwyd gan
1.0	15.04.25	Adolygiad o'r Polisi Diogelu Data gyda diweddariadau polisi.	Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth
1.1	26.06.25	Pwyllgor Awdit a Risg yn cymeradwyo'r polisi a'i wneud yn derfynol.	Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth

Rhestr Cynnwys

1. Ystod a Phwrpas.....	3
2. Diffiniadau.....	4
3. Datganiad Polisi.....	4
3.1: Egwyddorion Allweddol	4
3.2: Ymrwymïadau Allweddol	5
3.3: Ymrwymiad i Hawliau Testun y Data	6
3.4: Camddefnydd Data	6
4. Cyfrifoldebau.....	7
5. Datganiad Cydraddoldeb ac Effaith ar yr Iaith Gymraeg	7
6. Cyfathrebu a Storio	8

1. Ystod a Phwrrpas

1.1: Pwrrpas

Pwrrpas y Polisi Diogelu Data hwn yw sefydlu ymrwymiad Coleg Catholig Dewi Sant o ran diogelu data personol. Mae'n bodoli i sicrhau bod y coleg yn cwrdd â'i rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoliadol a moesegol wrth brosesu data personol ac i gefnogi datblygiad diwylliant o ddiogelu data sy'n gwerthfawrogi preifatrwydd, atebolrwydd a thryloywder.

Mae'r polisi hwn yn darparu'r fframwaith troswaol ar gyfer sut bydd y coleg yn:

- Cynnal egwyddorion diogelu data fel y'i gosodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU (UK GDPR), sicrhau bod data personol yn cael eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg, yn dryloyw ac yn cael eu casglu at bwrpasau penodol; wedi'u cyfyngu at yr hyn sy'n angenrheidiol; yn fanwl gywir a chyfredol; yn cael eu cadw dim ond cyhyd ag sy'n angenrheidiol ac yn cael eu trafod yn ddiogel.
- Parchu a galluogi hawliau testunau data gan gynnwys eu hawl i fynediad, cywiriad, dilead, cyfyngu, gwrthwynebu, symudedd data ac i gael eu hysbysu am sut y caiff eu data personol eu defnyddio.
- Sicrhau bod y coleg yn deall ei asedau gwybodaeth a gweithgareddau prosesu gan gynnal *Cofrestr IAR a ROPA* gyda rolau a chyfrifoldebau eglur ar gyfer trafod data ar draws adrannau.
- Sicrhau defnydd effeithiol o Asesiadau Effaith Diogelwch Data (DPIAs).
- Sodro ystyriaethau diogelu data yn holl weithgarwch y coleg gan ddatblygu agwedd sy'n arddangos diwylliant o ddiogelu data drwy gynllun.

Mae'r polisi hwn yn rhan allweddol o lywodraethiant gwybodaeth tros gynhwysol y coleg ac yn ffurfio sail i arweiniad mwy technegol a gweithredol o ran diogelu data.

1.2: Ystod

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl brosesu data personol a gaiff ei wneud gan neu ar ran Coleg Catholig Dewi Sant, waeth bynnag yw'r fformat (digidol neu ar bapur), system (lleol neu ar gwmwl) neu leoliad (ar y safle neu'n bell). Mae'n berthnasol i brosesu data sy'n awtomatig ac yn waith llaw.

Mae'r polisi hwn yn weithredol o ran:

- Pob aelod o staff
- Uwch Arweinyddion a Llywodraethwyr
- Staff asiantaeth a dros dro
- Prosesyddion Data

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddata personol a brosesir yn y coleg sy'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r, canlynol:

- Cofnodion Myfyrwyr
- Cofnodion Staff
- Cofnodion Alumni
- CCTV a rheolaeth mynediad
- Cyfathrebiadau
- Unrhyw brosesu sy'n ymwneud â data categori arbennig neu ddata euogfarnau troseddol

Mae'r polisi hwn yn alinio ag ac yn cefnogi ystod o bolisiâu a gweithdrefnau'r coleg er mwyn sicrhau agwedd cyson at reoli data a chofnodion. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â:

- Diogelu Data – Gweithdrefn IAR a ROPA
- Diogelu Data – Gweithdrefn Ceisiadau Mynediad y Testun
- Diogelu Data – Gweithdrefn Ceisiadau Hawliau'r Testun
- Rhybuddion Preifatrwydd
- Polisi a Gweithdrefn Tor Diogelwch Data
- Polisi a Gweithdrefn Rheoli Cofnodion
- Polisi TG – Systemau Mewnol
- Polisi Diogelu
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Galluogrwydd
- Polisi Disgyblaeth

1.4: Fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol

Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i gydymffurfio â chyfreithiau allweddol, fframweithiau rheoleiddiol ac arweiniad y llywodraeth a diwydiant gan gynnwys:

- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU (UK GDPR)
- Deddf Gwarchod Data 2018
- Arweiniad a Chod Ymarfer y ICO

2. Diffiniadau

2.1: **Data Personol:** Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol byw a adnabyddir neu a ellid cael ei adnabod (testun y data).

2.2: **Data Categori Arbennig:** Is-gategori o ddata personol sy'n cynnwys gwybodaeth fwy sensitif megis hil, iechyd, credoau crefyddol neu duedd rhywiol sy'n destun diogelu ychwanegol.

2.3: **Testun y Data:** Yr unigolyn y mae'r data perthnasol yn perthyn iddynt.

2.4: **Prosesu:** Unrhyw weithred neu gyfres o weithredoedd a berfformir ar ddata personol gan gynnwys casglu, storio, defnyddio, rhannu a dileu.

2.5: **Rheolwr Data:** Yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n penderfynu ar bwrpas ac ystyr prosesu data personol.

2.6: **IAR (Cofrestr Asedau Gwybodaeth) a ROPA (Cofnod o Weithgareddau Prosesu):** Cofnod sy'n nodi'r fath o ddata personol a ddelir gan y coleg a phwrsasau'r prosesu gan gynnwys y sail gyfreithiol.

3. Datganiad Polisi

3.1: Egwyddorion Allweddol

Mae agwedd y coleg at ddiogelu data'n seiliedig ar y saith Egwyddor Diogelu Data fel y'i gosodir yn GDPR y DU:

- **Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywder:** Bydd y coleg yn sicrhau bod ganddo sail gyfreithiol ddilys ar gyfer casglu a defnyddio data personol, yn gweithredu'n deg ac yn hysbysu unigolion am y gweithgareddau prosesu.
- **Cyfyngiad Diben:** Bydd Coleg Catholig Dewi Sant yn sicrhau bod data personol yn cael ei gasglu at ddibenion penodol, eglur ac na fydd yn ailddefnyddio'r data mewn ffyrdd anghydnaws.

- **Lleihau Data:** Dim ond data personol sy'n ddigonol, yn berthnasol ac yn angenrheidiol a gaiff ei gasglu a'i brosesu.
- **Cywirdeb:** Bydd y coleg yn ymdrechu i sicrhau bod data personol yn gywir ac yn gyfredol ac yn cymryd camau rhesymol i gywiro neu ddileu data os yw'n anghywir neu'n gamarweiniol.
- **Cyfyngiadau Storio:** Dim ond cyhyd ag sy'n angenrheidiol ar gyfer y sail gyfreithlon y caffodd ei gasglu arni y cedwir data personol.
- **Uniondeb a Chyfrinachedd:** Bydd Coleg Dewi Sant yn ymdrechu i sicrhau bod data personol yn cael ei ddiogelu rhag mynediad, colled neu ddatgeliad heb awdurdod.
- **Atebolrwydd:** bydd y coleg yn ymrwymo i gymryd cyfrifoldeb am y data personol a gesglir a'i prosesir a sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i gofnodi a dangos cydymffurfiaeth.

3.2: Ymrwymïadau Allweddol

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn ymrwymo i:

3.2(i) Sicrhau prosesu cyfreithlon, teg a thryloyw

- Prosesu data personol dim ond lle mae sail gyfreithlon yn berthnasol.
- Creu, cyhoeddi ac adolygu Hysbysiadau Preifatrwydd ar gyfer ymgeiswyr, myfyrwyr a staff i sicrhau eu bod yn deall pa ddata personol sy'n cael ei gasglu, y diben ar gyfer prosesu a'r sail gyfreithlon y mae'r data'n cael ei brosesu arni.
- Adolygu gwybodaeth a gesglir a gweithgareddau prosesu i sicrhau bod Hysbysiadau Preifatrwydd yn gywir ac yn gyfredol (gweler Gweithdrefnau Diogelu Data – IAR a ROPA)

3.2(ii) Cyfyngiadau Pwrpas

- Cofnodi a dogfennu'r gweithgareddau prosesu a'u dibenion drwy greu, cynnal ac adolygu Cofrestr IAR a ROPA (gweler Gweithdrefnau Diogelu Data – IAR a ROPA).
- Adolygiadau rheolaidd o'r data personol a gesglir a'r gweithgareddau prosesu i atal symud swyddogaethau (gweler Gweithdrefnau Diogelu Data – IAR a ROPA).

3.2(iii) Lleihau Data

- Dim ond casglu data personol sy'n angenrheidiol at y dibenion a nodir yn yr Hysbysiadau Preifatrwydd a'r Gofrestr IAR a ROPA.
- Sicrhau bod Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA) yn cael eu cwblhau ar gyfer gweithdrefnau neu systemau newydd i herio unrhyw brosesu diangen o ddata personol yn ystod dylunio'r gweithdrefnau neu'r systemau hynny (gweler y Broses Creu Polisi a Gweithdrefnau).
- Cwblhau adolygiadau blynyddol o'r Gofrestr IAR a ROPA i sicrhau mai dim ond data personol angenrheidiol a pherthnasol sy'n cael ei gasglu a, lle mae data sensitif, bod DPIA wedi'i gwblhau i herio'r gweithgaredd prosesu (gweler Gweithdrefnau Diogelu Data – IAR a ROPA).

3.2 (iv) Cywirdeb

- Darparu mecanweithiau ar gyfer unigolion i wneud cywiriadau i ddata personol.

3.2(v) Cyfyngiadau ar Storïo

- Creu, cynnal ac adolygu'n rheolaidd yr Amserlen Cadw Cofnodion fel y'i nodir yn y Polisi a'r Gweithdrefnau Rheoli Cofnodion.
- Sicrhau gwaredu cofnodion yn gyfrifol ac yn ddiogel yn unol â'r Amserlen Cadw Cofnodion fel y'i dogfennir yn y Gofrestr Gwaredu Cofnodion. Bydd y coleg yn ymchwilio, dogfennu, adrodd a chymryd camau gweithredu lle mae cofnod yn cael ei ddileu'n ddamweiniol fel y nodir yn y Polisi a'r Gweithdrefnau Rheoli Cofnodion a, lle mae'n cynnwys data personol, cydymffurfio â Pholisiau a Gweithdrefnau Tor Data Personol.
- Orlhain a monitro gweithrediad yr Amserlen Cadw Cofnodion i sicrhau cydymffurfiaeth trwy gynnal archwiliadau rheolaidd fel y nodir yn y Polisi a'r Gweithdrefnau Rheoli Cofnodion.

3.2(vi) Uniondeb a Chyfrinachedd

- Monitro ac adrodd ar dor data fel y nodir yn y Polisi a'r Gweithdrefnau Tor Data Personol ac yn unol â chanllawiau GDPR a'r ICO yn y DU.
- Cofnodi, olrhain, lliniaru a gweithredu camau i atal ailddigwydd lle mae tor data wedi digwydd gan sicrhau adrodd priodol i'r SLT a Phwyllgorau perthnasol fel y nodir yn y Polisi a'r Gweithdrefnau Tor Data Personol a'r Gofrestr Tor Data Personol.
- Sicrhau bod prosesu data categori arbennig a sensitif yn cael ei nodi (trwy'r Gofrestr IAR a ROPA), bod diogelwch sy'n ymwneud â phrosesu'r data hwnnw'n cael ei adolygu'n rheolaidd gan gynnwys cwblhau DPIA yn ôl yr angen.

3.2(vii) Atebolrwydd

- Cynnal hyfforddiant cydymffurfio blynyddol gorfodol i staff sy'n gysylltiedig â GDPR.
- Sicrhau bod pob digwyddiad diogelu data yn cael ei gofnodi ac adrodd i'r Arweinyddion uwch a Phwyllgorau perthnasol.
- Cynnal archwiliadau mewnol ac adolygiadau llywodraethu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol.

3.3: Ymrwymiad i Hawliau Testun y Data

Mae Coleg Catholig Dewi Sant wedi ymrwymo i gefnogi testun y data i gael mynediad at eu hawliau fel y nodir o dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r hawliau hyn yn cynnwys:

- yr hawl i gael gwybod
- yr hawl i gael mynediad
- yr hawl i gywiro
- yr hawl i ddileu data
- yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- yr hawl i gludadwyedd data
- yr hawl i wrthwynebu

Mae'r coleg wedi ymrwymo i dderbyn ceisiadau mewn perthynas â'r hawliau hyn mewn amrywiaeth o wahanol fformatau, i ddogfennu'r cais a'r ymateb i'r cais yn ogystal ag adrodd i uwch arweinyddiaeth a Phwyllgorau perthnasol.

Er mwyn cefnogi pynciau data i gael mynediad at yr hawliau hyn, cânt eu hyrwyddo o fewn Hysbysiadau Preifatrwydd gyda phroses adrodd er mwyn hwyluso mynediad.

Yn ogystal, gweler Gweithdrefnau Diogelu Data – Hawliau Testun Data, Gweithdrefnau Diogelu Data – Ceisiadau Mynediad at Gofnodion a Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Cofnodion.

3.4: Camddefnydd Data

Dylai unrhyw aelod o staff, myfyriwr neu randdeiliad arall sy'n ystyried nad yw'r polisi wedi'i ddilyn mewn perthynas â data personol amdanynt eu hunain godi hyn gyda'r tîm diogelu data drwy anfon e-bost at dataprotection@stdavidscollege.ac.uk a fydd yn ymchwilio ac yn ymateb. Mae hefyd yn bosibl codi pryder gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO – Information Commissioner's Office)

4. Cyfrifoldebau

Mae diogelu data yn gyfrifoldeb a rennir. Er y gellir dirprwyo cyfrifoldebau gweithredol o ddydd i ddydd, y coleg fel y rheolwr data sy'n gyfrifol am yr atebolrwydd cyffredinol. Mae'r rolau canlynol yn cefnogi'r strwythur atebolrwydd hwn:

4.1: Llywodraethwyr

- Darparu goruchwyliaeth strategol a sicrhau bod canfod data yn rhan o agenda risg a chydymffurfiaeth y coleg.
- Cefnogi diwylliant o atebolrwydd a sicrhau adnoddau priodol ar gyfer cydymffurfiaeth.
- Derbyn adroddiadau rheolaidd ar risgiau diogelu data, digwyddiadau a monitro cydymffurfiaeth.

4.2: Y Tîm Arweinyddiaeth Uwch (SLT)

- Sicrhau bod egwyddorion diogelu data wedi'u hymgorffori ar draws cynllunio strategol ac arweinyddiaeth weithredol.
- Goruchwyllo cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.

4.3: Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth (hefyd y Swyddog Diogelu Data- DPO)

- Cynghori'r coleg a monitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data.
- Gwasanaethu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a thestun y data.
- Arwain y gwaith o ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau diogelu data, hyfforddiant a DPIAs a phrosesau archwilio.
- Darparu cyngor annibynnol i'r UDA a'r Llywodraethwyr a chodi pryderon yn uniongyrchol lle bo angen.

4.4: Pennaeth TG

- Sicrhau bod mesurau diogelwch technegol a sefydliadol ar waith i ddiogelu data personol.
- Arwain y gwaith o weithredu seilwaith diogel a rheolaethau mynediad.
- Cydweithio â'r Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth mewn perthynas â systemau a thechnolegau newydd.
- Cefnogi ymateb i ddigwyddiadau ac adferiad os bydd tor data.

4.5: Deoniaid, Cyfarwyddwyr, Rheolwyr adrannau ac Arweinyddion Meysydd Dysgu

- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau diogelu data yn eu meysydd.
- Cynnal cofnodion IAR a ROPA cyffredol.
- Goruchwyllo cwblhau DPIAs ar gyfer prosiectau neu systemau newydd yn eu maes.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff a sicrhau trin priodol a storio a gwaredu data personol yn ddiogel.

4.6: Holl Staff

- Deall a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data'r coleg.
- Cwblhau hyfforddiant GDPR gorfodol a dilyn arferion gorau ar gyfer trin data personol.
- Adrodd pryderon diogelu data ar unwaith i'r Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth.
- Prosesu data personol at y dibenion awdurdodedig yn unig ac yn unol ag egwyddor lleihau data a chyfyngu storio.

5. Datganiad Cydraddoldeb ac Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg wedi'i gwblhau ac mae wedi'i bennu bod effaith gadarnhaol gyffredinol ar y meysydd hyn. O ran cydraddoldeb, mae'r polisi'n cael ei gymhwyso'n gyffredinol, felly, nid oes unrhyw rwystrau i unigolion mewn grwpiau gwarchodedig gael

mynediad at eu hawliau o dan ddiogelu data. Yn ogystal, mae'r dull sy'n seiliedig ar hawliau a'r tryloywder a grëwyd mewn perthynas â phrosesu data yn cefnogi dileu gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal e.e. gall y gallu i gael mynediad at ddata a'i gywiro helpu i atal gwahaniaethu. Bydd y polisi a'r Hysbysiadau Preifatrwydd ar gael yn y Gymraeg ac, yn unol â'r Polisi Iaith Gymraeg, bydd cyfathrebu dwyieithog ar gael yn ôl yr angen.

6. Cyfathrebu a Storio

6.1: Cyhoeddir y polisi hwn i staff ar blatfform 'Every'.

6.2: Cyhoeddir y polisi hwn i fyfyrwyr, rhieni, gwarcheidwaid a rhanddeiliaid eraill ar wefan y coleg.

6.3: Bydd y polisi hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.